OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2900 (Cy.251)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig a Chynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed - - - -	*3 Hydref 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Hydref 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, a hwythau wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt, yn gwneud yn Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig a Chynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 1 Tachwedd 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygier Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006(**3**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) yn y diffiniad o "buddiolwr" ym mharagraff (1), ar ôl "iddo" mewnosoder "neu berson sydd wedi cymryd drosodd ymrwymiadau'r cyfryw berson",

(b) ar ôl paragraff (1), mewnosoder "(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006 p.32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2006/3343 (Cy.304).

(3) Yn rheoliad 3, ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud trefniadau gyda grwp a ddetholwyd i weithredu strategaeth ddatblygu leol yn unol ag Erthygl 37 o Reoliad y Comisiwn 1974/2006, er mwyn i'r grwp hwnnw wneud taliadau o gymorth ariannol ar ran Gweinidogion Cymru ac er mwyn i'r grwp hwnnw arfer pwerau adennill yn unol â rheoliad 9".

(4) Yn rheoliad 7(2), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(dd) darparu adroddiad rheoli yn unol ag Erthygl 13 o Reoliad y Comisiwn 1975/2006; a

(e) penderfynu a fu diffyg cydymffurfiaeth ai peidio."

(5) Yn rheoliad 7(3), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(dd) os yw'n angenrheidiol at ddibenion paragraff (2)—

(i) arolygu a chyfrif da byw ar y tir, a

(ii) ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd neu i'r buddiolwr, neu i unrhyw gyflogai, gwas neu asiant i'r buddiolwr hwnnw, drefnu ar gyfer casglu'r da byw hynny, eu rhoi mewn lloc a'u diogelu."

(6) Yn rheoliad 14(3)—

(a) yn is-baragraff (b) ar ôl y geiriau "y telir cymorth ar eu cyfer) mewnosoder "a rheoliad 16(5) (gwrthod ac adennill cymorth, terfynu a gwahardd)",

(b) dileer is-baragraff (c),

(c) yn is-baragraff (ch), ar ôl "iddynt" dileer "." a mewnosoder "; a",

(ch) ar ôl is-baragraff (ch) mewnosoder—

"(d) rheoliad 16(6) (Pwerau'r Cynulliad i adennill etc.) o Reoliadau Grant Menter Ffermydd a Grant Gwella Ffermydd (Cymru) 2001(**4**).".

(7) Mae paragraff (6)(b) yn adnewyddu'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 14(3)(c) i'r graddau bod parhau i weithredu'r ddarpariaeth honno'n cael ei arbed gan reoliad 14(2).

(8) Ym mharagraff 2 o'r Atodlen, yn lle "1689" rhodder "1698".

(9) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff (7), ychwaneger—

"**8.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1975/2006 dyddiedig 23 Rhagfyr 2006 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005 o ran gweithredu gweithdrefnau rheoli yn ogystal â thrawsgydymffurfio o ran mesurau cefnogi datblygu gwledig.

9. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1974/2006 dyddiedig 23 Rhagfyr 2006 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005 ar gefnogaeth i ddatblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).".

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

3.—(1) Diwygier Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(**5**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2, ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

"(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

(**4**) O.S. 2001/3806 (Cy. 314)
(**5**) O.S 2006/3342 (Cy.303).